

# **CYNGOR SIR Y FFLINT**

**DATGANIAD MONITRO TIR AR GYFER TAI  
EBRILL 2019**

## **CYNNWYS**

- 1 Crynodeb**
- 2 Cyflenwad Tir ar gyfer Tai**
- 3 Casgliad**

**Atodiad 1 – Rhestrau Safleoedd**

**Atodiad 2 – Data Safleoedd a Gwblhawyd yn y Gorffennol**

**Atodiad 3 – Data Cyflenwadau Tir Blaenorol**

**Atodiad 4 – Safleoedd sy'n Disgwyl A106**

**Atodiad 5 – Cyfrifiadau seiliedig ar Safleoedd a Gwblhawyd yn y Gorffennol a'r gofyniad tai blynyddol yn CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd**

# **Datganiad Monitro Tai Cyngor Sir y Fflint Ebrill 2019**

## **1.0 CRYNODEB**

- 1.1 Ar hyn o bryd nid oes cynllun datblygu cyfredol ar gyfer Sir y Fflint gan fod y Cynllun Datblygu Unedol wedi dod i ben ac nid oes Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wedi'i fabwysiadu. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 1(NCT1): Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Ionawr 2015 yn datgan: 'Ni fydd awdurdodau cynllunio lleol nad oes ganddynt Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig na Chynllun Datblygu Unedol, yn gallu dangos os oes ganddynt gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai ai peidio, felly i bod diben ystyrir nad oes ganddynt gyflenwad 5 mlynedd.' Ni fydd modd i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny nad oes ganddynt gynllun datblygu mabwysiedig gynhyrchu cyd-astudiaeth hyd nes bod CDLI mabwysiedig yn ei le. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig monitro lefel y ddarpariaeth tai a niferoedd a gwblheir yn flynyddol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r data tai fel yr oedd ar 1 Ebrill 2019 i ddibenion monitro ac i gyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI. Mae'n dilyn y canllawiau yn NCT1 ac mae'n cynnwys amcangyfrifon y Cyngor ar y nifer o unedau sy'n debygol o gael eu cwblhau yn ystod y pum mlynedd nesaf.

## **2.0 CYFLENWAD TIR AR GYFER TAI**

- 2.1 Mae'r cyflenwad tir pum mlynedd yn cynnwys safleoedd mawr a bach sydd â chaniatâd cynllunio (amlinellol neu lawn), dyraniadau safle sy'n weddill ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd, a safleoedd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn amodol ar lofnodi cytundeb A106, a gaiff eu categorieiddio fel y rhagnodir yn NCT1. Mae'r cyflenwad hefyd yn cynnwys y safleoedd hynny a ddyrannwyd mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd eisoes y mae'r awdurdod lleol o'r farn eu bod yn debygol o ddigwydd. Eithriwyd nifer o ddyraniadau yn y cynllun datblygu presennol o'r astudiaeth lle mae'r awdurdod lleol o'r farn nad yw'n debygol y cânt eu datblygu.
- 2.2 Cydnabyddir bod NCT1 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol sy'n cynhyrchu Cyd Astudiaeth o Argaeledd Tir ar Gyfer Tai ffurfiol yn defnyddio'r dull gweddilliol wrth gyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai. Fodd bynnag fel y nodir ym mharagraff 1.1 uchod, oherwydd bod yr CDU wedi dod i ben, o dan yr arweiniad yn NCT1 ni all Sir y Flint gynnal astudiaeth ffurfiol ac ystyrir nad oes gan y Cyngor gyflenwad 5 mlynedd. Fodd bynnag mae'r adroddiad monitro hwn yn cynnwys (er gwybodaeth) gyfrifiadau o'r cyflenwad tai yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau'r gorffennol a hefyd y gofyniad blynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd (Cynllun Adneuo) oherwydd y teimlir bod hyn o gymorth i roi syniad o lefel y cyflenwad tir ar gyfer tai.

2.3 Yn NCT1 caiff safleoedd eu categorio fel a ganlyn:

Categori 1	Safleoedd neu rannau o safleoedd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (yn cyfeirio at yr union ardal lle mae'r adeiladu'n digwydd yn unig).
Categori 2	Safleoedd neu rannau o safleoedd lle gellir dechrau datblygu ar unwaith neu lle mae'r cyfyngiad ar ddatblygu yn debygol o gael ei godi mewn pryd i gwblhau'r anheddau o fewn 5 mlynedd.
Categori 3	Safleoedd neu rannau o safleoedd lle mae'r Grŵp Astudio'n cytuno nad yw'n ariannol hyfyw i ddatblygu'r safle yn sgil amodau'r farchnad, ond sydd fel arall yn rhydd rhag cyfyngiadau. (Er na fydd safleoedd Categori 3 yn rhan o'r cyflenwad 5 mlynedd, bydd eu nodi yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a thirfeddianwyr i ddod o hyd i gyfleoedd i wella hyfywedd a dichonoldeb safle.)
Categori 4	Safleoedd neu rannau o safleoedd lle mae datblygiad yn annhebygol o fewn 5 mlynedd oherwydd cyfyngiadau ffisegol mawr neu gyfyngiadau eraill y cytunwyd arnynt gan y Grŵp.

## Cyflenwad Safleoedd Mawr

**Tabl 1 - Cyflenwad Tir a Nodwyd ar gyfer Tai**

Cyflenwad Tir ar gyfer Tai (1 Ebrill 2019 hyd 1 Ebrill 2024) – Safleoedd Mawr					
	Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Categoriâu NCT1)		Y tu hwnt i 5 mlynedd		
	Cat 1 (wrthi'n cael eu hadeiladu)	Cat 2	Cat 3	Cat 4	
<b>Cyfanswm</b>	370	2163	878	0	(381+73)= 454

**Tabl 2 – Dadansoddiad o'r cyflenwad tir pum mlynedd – safleoedd mawr (h.y. Categoriâu 1 a 2)**

Preifat	2330
Cymdeithasol	203
<b>Cyfanswm</b>	<b>2533</b>

## Cyflenwad Safleoedd Bach

- 2.4 Mae cyfraniad gan safleoedd bach o lai na deg o anheddau'n seiliedig ar y cofnod o'r cartrefi a gwblhawyd yn y pum mlynedd diwethaf.

**Tabl 3 – Safleoedd Bach a Gwblhawyd ar gyfer y 5 Mlynedd Diwethaf**

2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Cyfanswm
81	87	102	104	73	<b>447</b>
<b>Cyfartaledd 5 mlynedd (447/5)</b>					<b>89</b>

- 2.5 Cyfanswm y cyflenwad 5 mlynedd o'r safleoedd mawr a bach hyn yw **2980 (2533 + 447)**.

## Cyflenwad o Safleoedd A106

- 2.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.1, gall safleoedd sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb A106 gyfrannu at y cyflenwad 5 mlynedd. Mae hyn ar y sail y penderfynwyd rhoi caniatâd cyn 31 Mawrth 2019, a bod bwriad clir gan yr ymgeisydd i ddatblygu'r safle o fewn pum mlynedd.

**Tabl 4 – Cyflenwad o Safleoedd A106**

<b>Safleoedd</b>	<b>Unedau</b>
Safleoedd bach	1
Safleoedd mawr	60
<b>Cyfanswm</b>	<b>61</b>

- 2.7 Y cyfanswm o bob ffynhonnell y cyflenwad tir 5 mlynedd yw 2,872 o unedau.

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Unedau</b>
Safleoedd mawr (categori 1 a 2)	2533
Safleoedd bach	447
Safleoedd sy'n disgwyl am A106 (safleoedd mawr a bach)	61
<b>Cyfanswm</b>	<b>3041</b>

### 3.0 CASGLIAD

- 3.1 Gan ystyried nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu dangos cyflenwad tir 5 mlynedd yn unol â gofynion NCT1, lluniwyd nodyn cyfarwyddyd ar gyfer datblygwyr gyda'r bwriad o sicrhau bod safleoedd hapfasnachol a gyflwynir ar sail diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai yn gynnigion datblygu gwirioneddol, yn hytrach na dim ond mater o ychwanegu gwerth at dir (<https://www.sirymfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Planning/Adopted-SPGNs/SpeculativeHousingDevelopmentProposals.pdf>).
- 3.2 O ran y cyflenwad tir ar gyfer tai, croesawodd y Cyngor lythyr y Gweinidog dyddiedig 18/07/18 a diddymiad paragraff 6.2 o NCT 1 (dileu'r pwysau 'sylweddol' oedd i'w roi ar gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai), ynghyd â'r 'Cais am Dystiolaeth' ehangach. Wrth gyflwyno'i ymateb i'r cais am dystiolaeth mynegodd y Cyngor ei farn fod y fethodoleg bresennol o dan NCT1 yn ddiffygiol oherwydd y ragdybiaeth nad oes gan Awdurdodau Lleol heb CDLI wedi'i fabwysiadu gyflenwad 5 mlynedd, a hefyd nad yw defnyddio'r dull gweddilliol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r cyflenwad tir mewn gwirionedd. Mae'r Cyngor wedi derbyn llawer iawn o geisiadau cynllunio hapfasnachol, gan roi caniatâd i rai ohonynt a gwrthod rhai eraill. Mae hyn wedi creu pryder mewn cymunedau lleol ac wedi tanseilio'r gwaith o baratoi'r CDLI o safbwynt dargyfeiriad adnoddau.
- 3.3 Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, ers dyddiad yr Astudiaeth sylfaen, wedi cynnal ymgynghoriad ar y posibilrwydd o ddileu NCT1 a'r cyfrifiad o gyflenwad pum mlynedd.
- 3.4 Gwir nifer y tai a gwblhawyd yn y Sir ar gyfartaledd yw 536 uned y flwyddyn dros bedair blynedd gyntaf cyfnod y CDLI, Mae'r gyfradd gwblhau gyfartalog hon yn debyg iawn i'r ffigur darpariaeth tai blynyddol yn y CDLI (yn cynnwys hyblygrwydd), sef 530 (7950/15).
- 3.5 O dan NCT1 ni all y Cyngor gynnal Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ffurfiol sy'n cynnwys cyfrifiad o'r cyflenwad tir ar sail y dull 'gweddilliol'. Er mwyn rhoi rhyw syniad o'r cyflenwad tir, mae Atodiad 5 i'r Adroddiad yn cynnwys tablau sy'n dangos sut mae'r cyflenwad tir a nodwyd yn cymharu â lefel y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol dros gyfnodau o bum mlynedd a deng mlynedd a hefyd y gofyniad tai blynyddol yn y CDLI Adneuo.
- 3.6 Mae'r Cyngor yn cydnabod er yw'r rhain yn gyfrifiadau ffurfiol o dan delerau presennol NCT1, eu bod o leiaf yn dangos lefel y cyflenwad o gymharu â'r hyn y mae'r diwydiant datblygu'n ei wireddu a hefyd o gymharu a'r gofyniad yn y CDLI Adneuo. Cydnabyddir hefyd, fel yr eglurir ym mharagraff 3.7 isod, nad yw'r CDLI et wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Srolygiaeth Cynllunio ac y bydd yn cael ei archwilio gan arolygwr annibynnol. Am y rheswm hwn mae pob cymhariaeth wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig.
- 3.7 Mae'r Cyngor o'r farn mai'r dull mwyaf priodol o gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai yw paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Ar ôl cyhoeddi Cais am Safleoedd Ymgeisiol, ymgynghori ac ymgysylltu ar yr opsiynau twf strategol a gofodol a

chyhoeddi Cynllun ymgynghori cyn-adneuo drafft (Strategaeth a Ffefrir), rhoddodd y Cyngor y CDLI ar adnau cyhoeddus ar 30 Medi 2019. Mae'r CDLI yn dynodi safleoedd yn seiliedig ar asesiad trylwyr a thryloyw ac yn unol â strategaeth ofodol a gytunwyd yn hytrach nag ar sail ad hoc. Nid yw'r Cyngor felly'n bwriadu cymryd unrhyw gamau ffurfiol pellach i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai, gan y byddai gwneud hynny yn dargyfeirio adnoddau i ffwrdd oddi wrth symud ymlaen â'r CDLI. Bwriedir y bydd y CDLI, sy'n cynnwys dyraniadau tai leded y sir a fydd yn gallu cartrefu hyd at 3168 o unedau, yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio yn yr haf 2020.

- 3.8 Yn ôl NCT1, mae dwy ffordd y gall y Cyngor hwyluso datblygiad tai cynaliadwy a fydd yn gwella'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Yn gyntaf, bydd y Cyngor yn dal i weithio gyda pherchnogion tir a datblygwyr wrth ddod â safleoedd tai annisgwyl priodol a chynaliadwy ymlaen, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau neu rwystrau sy'n atal cyflwyno safleoedd a neilltuwyd. Bydd ceisiadau ar gyfer safleoedd o fewn ffiniau aneddiadau yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn ffafriol ar yr amod eu bod yn bodloni polisiâu'r Cynllun. Bydd ceisiadau ar safleoedd y tu allan i aneddiadau presennol yn cael eu hasesu yn ôl eu rhinweddau unigol o ran a ydynt yn cynrychioli datblygiad rhesymegol a chynaliadwy gan roi sylw i ystyriaethau cynllunio perthnasol ac ni fyddant yn cael eu cymeradwyo oherwydd y byddent yn cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn unig. Rhaid iddynt hefyd fod yn gallu dangos eu bod yn gallu cynyddu'r cyflenwad yn y tymor byr yn gadarnhaol (er enghraifft, drwy roi caniatâd tymor byr) neu fel arall ni fyddent yn gallu bodloni gofynion NCT1, yn enwedig felly o ran y gallu i'w cyflawni. Wrth i'r adeg i adneuo'r CDLI ddod yn nes, gallai cynamseroldeb fod yn rhywbeth i'w ystyried hefyd.
- 3.9 Yn ail, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn symud ei Raglen Tai ac Adfywio Strategol yn ei flaen (SHARP) <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Strategic-Housing-and-Regeneration-Programme/Home.aspx>, rhaglen sydd â'r nod o ddatblygu pum cant o gartrefi cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai rhentu i brynu dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor gynnwys tir ar gyfer datblygu cartrefi ar gyfer y farchnad breifat, lle mae safleoedd yn cyfrannu at y Rhaglen yn gyffredinol, hynny yw, yn darparu tai fforddiadwy. Penodwyd y partner datblygu a ffafriwyd, *Wates Living Space* ym mis Mai 2015, ac mae'r cwmni wedi cwblhau rhai cynlluniau ac yn gweithio ar gynlluniau eraill ar hyn o bryd, gyda rhagor ar y gorwel. Mae'r tabl isod yn dangos y cynlluniau oedd SHARP ar waith drwy'r Rhaglen fis Chwefror 2019.

Safle	Anheddiad	Unedau	Statws
<b>Llwyth 1</b>			
The Walks, Duke Street	Y Fflint	92	Wedi'i gwblhau
Custom House, Ffordd yr Wyddgrug	Cei Connah	12	Wedi'i gwblhau
		<b>104</b>	
<b>Llwyth 2</b>			
Redhall, St Mark's Avenue	Cei Connah	5	Wedi'i gwblhau
Hen Laethdy, Ffordd yr Wyddgrug	Cei Connah	6	Wedi'i gwblhau
Maes Meillion	Coed-llai	8	Wedi'i gwblhau
Heol y Goron	Coed-llai	5	Wedi'i gwblhau
Ysgol Delyn, Alexandra Road	Yr Wyddgrug	16	Wedi'i gwblhau



Canolfan Melrose, Melrose Avenue	Aston	9	Wedi'i gwblhau
		<b>49</b>	
<b>Llwyth 3</b>			
Maes Gwern	Yr Wyddgrug	162	Wrthi'n adeiladu
Nant y Gro	Gronant	41	Wedi cael caniatâd cynllunio
Llys Dewi	Pen-y-ffordd	27	Wedi cael caniatâd cynllunio
Depo (i'r gorllewin o Greenwood Grange)	Dobshill	24	Wedi cael caniatâd cynllunio
Hen lyfrgell, Sealand Avenue	Garden City	12	Cais cynllunio wedi'i gyflwyno
		<b>264</b>	

# Atodiad 1 – Rhestrau Safleoedd

## Sector Preifat

Cyfeiriad	Adeilad wyd 2017/18	Maint y Safle	Uneda u ar ôl	Wrth i'n adeil adu	Categori								Sylw
					2020	2021	2022	2023	2024	3	4		

### AFONWEN

Gwaith Coetsis Wilcox (AFN006)		19	19								19		Materion a neilltuwyd wedi'u caniatáu 16/11/18 – safle ar werth
--------------------------------	--	----	----	--	--	--	--	--	--	--	----	--	---

### BAGILLT

Central Garage (BAG034)		11	2	2									Wrthi'n adeiladu
Hen Glwb y Lleng Brydeinig (BAG038)		10	10	4	3	3							Wrthi'n adeiladu 4 bron yn barod

### BWCLE

Tir ar Brook Farm (BUC065)		16	16					8	8				Wedi caniatáu adnewyddiad, a'r safle i gael ei farchnata
Mount Pool (y tu ôl i Hillcrest) (BUC079)		20	20					10	10				Adnewyddiad wedi'i ganiatáu a'r perchennog yn trafod â'r datblygwr
Depo F G Whitley (BUC080)		39	39	6	3	10	10	10					Wrthi'n adeiladu
Well Street, Bwcle (BUC088)		159	159				53	53	53				Safle LIC. Cymd. Tai wedi cytuno ar delerau
Ger Aldans a Langdale (BUC179)	3	20	0										Wedi'i gwblhau
Wrth ymyl 61 Ffordd Brunswick (BUC202)		10	10		5	5							Disgwylir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle fis Medi 19
Jubilee Road/i'r gorllewin o Manor Drive (BUC206)	14	14	0										Wedi'i gwblhau

### CAERWYS

Summerhill Farm (CAE007)		67	67	5	8	18	18	18					Wrthi'n adeiladu
--------------------------	--	----	----	---	---	----	----	----	--	--	--	--	------------------

### COED TALON / PONTYBODKIN

Iard yr Orsaf / Depo (COE007)		49	49					20	20	09			Materion wedi'u neilltuo wedi'u cymeradwyo a'r perchennog yn ceisio gwerthu'r safle ar gyfer datblygiad.
-------------------------------	--	----	----	--	--	--	--	----	----	----	--	--	--

### CEI CONNAH

Ger Fair Oaks Drive (CON036)	4	87	74	10	14	25	25						Wrthi'n adeiladu. Caniatâd newydd wedi'i roi'n ddiweddar i ail ddatblygwr er mwyn cael cydbwysedd ar y safle.
------------------------------	---	----	----	----	----	----	----	--	--	--	--	--	---

Highmere Drive (CON038)		162	162				30	30	30	72		Dyraniad CDU. Datblygwr â diddordeb.
Territorial House, High Street 1 (CON 111)	11	11	0									Wedi'i gwblhau

#### EWLO

Wrth ymyl 59, Wood Lane, Penarlâg (EWL019)		23	23	15	8							-Edwards Homes wrthi'n adeiladu
I'r dde o The Larches (EWL043)	1	10	2	1	1							Wrthi'n adeiladu
Greenhill Ave / Springdale (EWL044)	15	41	0									Cwblhawyd

#### Y FFLINT

Croes Atti (FLI002)*	70	641	308	75	52	80	80	21				2 ddatblygwr ar y safle. Caniatad cynllunio llawn ar gyfer cam 4 – gwaith ar y gweill.
Clwb Dynion t Fflint (FLI048)	4	15	11	4	4	3						Wrthi'n adeiladu
Safle Earl Lea (FLI070)	73	73	0									Wrthi'n adeiladu

#### GARDEN CITY

I'r gogledd orllewin o Garden City (GAR002)*		1325	1325			100	120	220	220	665		Countryside properties wedi cychwyn ar gam 1. Sawl datblygwr a chyfraddau'n seiliedig ar ddatganiadau darparu
--	--	------	------	--	--	-----	-----	-----	-----	-----	--	---

#### GRONANT

Nant Y Groi, i'r dwyrain o Gronant Hill (GRO011)		41	41			10	31					Wedi cael caniatâd cynllunio 3/8/18Wates)
--	--	----	----	--	--	----	----	--	--	--	--	---

#### GWERNYMYNYDD

Rainbow Inn, Ffordd Rhuthun (GYM013)	3	17	8	4	2	2						Wrthi'n adeiladu
--------------------------------------	---	----	---	---	---	---	--	--	--	--	--	------------------

#### PENARLÂG

Tir yn Friar's Gap (HAW013)	1	31	3	1	1	1						Wrthi'n adeiladu
-----------------------------	---	----	---	---	---	---	--	--	--	--	--	------------------

#### HIGHER KINNERTON

Tir yn Kinnerton Lane (HIG022)	31	56	25	13		12						Wrthi'n adeiladu
--------------------------------	----	----	----	----	--	----	--	--	--	--	--	------------------

#### TREFFYNNON

Ysbyty Lluesty (HOL028)		89	89	42		20	27					Gwaith wedi dechrau
-------------------------	--	----	----	----	--	----	----	--	--	--	--	---------------------

#### YR HÔB/CAERGWRLE/ABERMORDDU/CEFN-Y-BEDD

Ty Carreg, Stryt Isa (HCA071)		15	15			7	8					Materion a neilltuwyd wedi'u caniatáu – Revelation properties Ltd. Yn dechrau yn y gwanwyn 2020
-------------------------------	--	----	----	--	--	---	---	--	--	--	--	---

#### YR WYDDGRUG

Hen iard goed Bromfield Timber (MOL020)		122	122							122		Annhebygol o gael ei ddatblygu yn y 5 mlynedd nesaf
---	--	-----	-----	--	--	--	--	--	--	-----	--	---

Hen waith Broncoed (MOL045)	3	88	15	5	10							Wrthi'n adeiladu
94 Ffordd Wrecsam (MOL100)		11	2	2								2 yn cael eu hadeiladu ( annhebygol o gael ei gwblhau – ei ddefnyddio fel siop)
Maes Gwern (MOL118)		160	160	36	4	40	40	40				Dau safle newydd yn cael eu hadeiladu - Wates

#### M YNYDD ISA

Issa Farm (MYN033)		59	59		10	25	24					Caniatâd cynllunio llawn newydd wedi'i roi yn Ebrill 2019 - Macbryde Homes
--------------------	--	----	----	--	----	----	----	--	--	--	--	--

#### NEW BRIGHTON

Gorsaf Wasanaeth New Brighton (NEW005)	21	24	2	2								Wrthi'n adeiladu
--	----	----	---	---	--	--	--	--	--	--	--	------------------

#### LLANEURGAIN

Cae Eithin, Village Rd (NOH 001)	9	94	0									Wedi'i gwblhau
----------------------------------	---	----	---	--	--	--	--	--	--	--	--	----------------

#### PENYFFORDD

Llys Dewi (PFD002)	6	27	21	21								CC llawn newydd-Wates
Tir i'r gogledd o Coed Mor (PFD020)		23	23			7	8	8				Safle wedi'i werthu'n ddiweddar

#### PENYFFORDD/PENYMYNYDD

Rhos Road, Penyffordd (PYF 039)		40	40			20	20					Safle Hilbre homes
Hawarden Rd., Penyffordd (PYF041)		32	32			16	16					Safle Macbryde Homes
Chester Rd., Penymynydd		186	186		36	50	50	50				Safle newydd Redrow

#### QUEENSFERRY

1-3 Pierce Street (QUE013)		16	16			6	10					Gwybodaeth gan y datblygwr
----------------------------	--	----	----	--	--	---	----	--	--	--	--	----------------------------

#### RHES Y CAE

The Stores House (RHE002)		10	7			4	3					Wrthi'n adeiladu
---------------------------	--	----	---	--	--	---	---	--	--	--	--	------------------

#### SALTNEY

Allied Bakeries (SAL018)	35	74	36	36								Wrthi'n adeiladu
--------------------------	----	----	----	----	--	--	--	--	--	--	--	------------------

#### SYCHDYN

Gwaith carthffosiaeth, Wats Dyke Way (SYC001)	33	43	10	10								Wrthi'n adeiladu
---	----	----	----	----	--	--	--	--	--	--	--	------------------

CYFANSWM (Sector Preifat)	337	4080	3208	299	158	474	611	476	312	878	0	
---------------------------	-----	------	------	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----	---	--

## Tai Cymdeithasol

Cyfeiriad	Adeiladwyd 2018/19	Capasiti'r safle	Unedau ar ôl	U/C	Categori								Sylwadau
					2020	2021	2022	2023	2024	3	4		
<b>BUCKLEY</b>													
Canolfan Iechyd Buckley Health Padeswood Rd. Gogledd (BUC204)	24	24	0									Wedi'i gwblhau	
<b>DOBSHILL</b>													
I'r gorllewin o Greenwood Grange, Ffordd Caer.(DOB005)		24	24	16	8								
<b>EWLOE</b>													
Boar's Head Inn, Holywell Rd (EWL059)		13	13			13						Pennaf ar y safle a chais i gynyddu i 31	
<b>Y FFLINT</b>													
Llys Ystrad Goffa (FLI077)	19	19	0									Wedi cwblhau	
<b>TREFFYNNON</b>													
I'r dwyrain o Ffordd Halkyn (HOL015)		45	45				20	25				Cynllun WWAHA Disgwyliar y bydd yn dechrau Ebrill 2020	
Ysgol Fabanod, Perth Y Trefyn (HOL)		55	55	55								Wrthi'n Adeiladu (WWHA)	
<b>MYNYDD ISA</b>													
Rose Lane/Synnyside (MYN028)		58	58			20	25	13				Clwyd Alyn i ddechrau ar y safle yn y gwanwyn 2020	
<b>PENYFFORDD</b>													
Ger Rhewl Fawr Road (PFD001)	1	18	8			8						Cynllun Grŵp Cynefin	
<b>CYFANSWM</b>	<b>44</b>	<b>256</b>	<b>203</b>	<b>71</b>	<b>8</b>	<b>28</b>	<b>58</b>	<b>38</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>		

## Atodiad 2 – Data Safleoedd a Gwblhawyd yn y Gorffennol

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer y Cartrefi a Gwblhawyd ar:</b>		
	<b>Safleoedd mawr</b>	<b>Safleoedd bach</b>	<b>Pob safle</b>
2007	158	159	317
2008	334	160	494
2009-2010 <sup>1</sup>	347	131	478
2011	210	69	279
2012	195	69	264
2013	328	54	382
2014	473	128	601
2015	493	81	574
2016	575	87	662
2017	319	102	421
2018	504	104	608
2019	381	73	454

---

<sup>1</sup> Ffigyrau dros gyfnod o ddwy flynedd

### Atodiad 3 – Data Cyflenwadau Tir Blaenorol

Blwyddyn	Cyflenwad pum mlynedd – nifer y cartrefi (categoriâu NCT1)			Nifer o flynyddoedd o gyflenwad	Cyflenwad y tu hwnt i bum mlynedd – nifer y cartrefi		
	1	2	2*		3i	3ii	
2007							
2008	54	1171	0	2.57-4.19	586	0	
2009-10 <sup>2</sup>	62	1068	0	6.03	948	0	
2011	12	1454	0	6.8	878	0	
2012	152	3362	0	4.5	1591	0	
2013	299	2983	0	4.1	1212	0	
2014	397	2316	0	3.7	1414	0	
	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>Bach</b>	<b>A106</b>		<b>3</b>	<b>4</b>
2015	263	2774	401	0	Amherthnasol	1306	196
2016	272	2544	419	41	Amherthnasol	1037	191
2017	210	2488	452	50	Amherthnasol	1083	21
2018	372	1934	502	64	Amherthnasol	1146	0

<sup>2</sup> Ffigyrau dros gyfnod o ddwy flynedd

**ATODIAD 4**

**Cyflenwad o Safleoedd sy'n Disgwyl A106  
(Cymeradwywyd yn amodol ar A106 cyn 1/4/2018)**

<b>Cyfeiriad</b>	<b>Cyfans. Unedau</b>	<b>Eisoes wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad cyflenwad tir</b>	<b>Cyfraniad at y cyflenwad 5 mlynedd</b>	<b>Safleoedd mawr/bach</b>
<b>CEI CONNAH</b>				
Clwb Cymdeithasol Albion	30	N	30	Mawr

<b>GWERNAFFIELD</b>				
Bayonne, Hafod Road	1	N	1	Bach

<b>Y FFLINT</b>				
Garej Pandy, Oakenholt	16	N	16	Mawr

<b>SHOTTON</b>				
Clwb Cymdeithasol Shotton	14	N	14	Mawr

<b>Cyfanswm cyfraniad at y cyflenwad 5 mlynedd</b>		
Safleoedd bach	<b>1</b>	
Safleoedd mawr	<b>60</b>	



## ATODIAD 5

### Cyfrifiadau Safleoedd a Gwblhawyd yn y Gorffennol

Fel y nodwyd uchod, cyfanswm y cyflenwad pum mlynedd yw 2872.

#### Safleoedd a Gwblhawyd dros 5 mlynedd

A	Cyfanswm y Safleoedd a Gwblhawyd dros y pum mlynedd flaenorol (2015-2019)	2719
B	Nifer a gwblhawyd bob blwyddyn ar gyfartaledd	544
C	Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd	3041
Ch	Cyflenwad Tir mewn Blynnyddoedd (C/B)	5.59 yrs

#### Safleoedd a Gwblhawyd dros 10 mlynedd

A	Cyfanswm y Safleoedd a Gwblhawyd dros y deng mlynedd flaenorol (2009-2019) <sup>1</sup>	4484
B	Nifer a gwblhawyd bob blwyddyn ar gyfartaledd	448
C	Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd	3041
Ch	Cyflenwad Tir mewn Blynnyddoedd (C/B)	6.79 yrs